Allech chi fod y Sam nesaf?

Felly, ydych chi eisiau bod yn weithiwr ieuenctid?

GwaithIeuenctidCymru

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Allech chi fod y Sam nesaf?

Mae gwaith ieuenctid yn cynorthwyo pobl ifanc – mae'n cynnig gweithgareddau hwyliog a diddorol, yn eu helpu i ennill sgiliau, i feithrin doniau a galluoedd. Mae'n digwydd mewn clybiau ieuenctid, mewn prosiectau neu ar y stryd.

"Diolch Sam
Mae'r amser a dreuliais yn OASIS wedi bod yr amser gorau yn fy mywyd ysgol. Bu'n llawer iawn o hwyl ac yn hynod o addysgol."

Prosiect 'Oasis'
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

www.DiolchSam.org.uk

Prosiect Cornel Siaradwyr
Gwasanaeth Ieuenctid Conwy, Bae Colwyn

Pam mae'n bwysig?

- Mae gwaith ieuenctid yn newid bywydau gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl ifanc.
- Dydy gweithwyr ieuenctid ddim yn dweud wrth bobl ifanc beth i'w wneud na phryd, maen nhw'n helpu, yn cefnogi, yn ysbrydoli ac yn annog.
- Dydy gweithwyr ieuenctid ddim yn beirniadu pobl, maen nhw'n trin pawb yn gyfartal ac yn rhoi pob cyfle posib i bobl ifanc.
- Mae gweithwyr ieuenctid yn dysgu sgiliau gwerthfawr i bobl ifanc mewn ffordd anffurfiol.

Pa fath o weithgareddau mae gweithwyr ieuenctid yn eu gwneud gyda phobl ifanc?

- Cyngor, gwybodaeth a chymorth gyda materion o bwys
- Chwaraeon a gweithgareddau awyr agored
- Crefftau, cerdd, drama, dawns
- Sgiliau cyfryngau a chyfrifiaduron
- Gwibdeithiau a chyfnodau preswyl (penwythnosau oddi cartref)
- Sgiliau sylfaenol (help ii ddarllen a sgrifennu)
- Sgiliau ymarferol (coginio, trafod arian, ceisiadau am swyddi)
- Cynlluniau cyfnewid rhyngwladol

Pa sgiliau personol sydd gan weithwyr ieuenctid?

- Cyfeillgar ac agored
- Cyfathrebu da
- Amyneddgar
- Egniol
- Trefnus
- Gofalgar

Pam hoffech chi fod yn weithiwr/wraig ieuenctid?

- Mae'n werthfawr ac mae'n rhoi help gwirioneddol i bobl
- Mae'n swydd hwyliog ac amrywiol
- Cyfleoedd hyfforddi rhagorol a chyflog da
- Meithrin diddordeb a sgiliau sydd gennych yn barod a dysgu eraill
- Ennill cymwysterau ar bob lefel
- Newid bywydau pobl a chymunedau

Sams go iawn

Omah

Mae Omah yn 40 oed. Mae'n weithiwr ieuenctid ers 12 mlynedd, gan weithio'n rhan-amser i'r Gymdeithas Integreiddio Somaliaid i gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc i fod yn fwy ymwybodol o wasanaethau, materion iechyd ac addysg, ac i greu delweddau cadarnhaol.

Fe'i ganed ym Manceinion. Bu'n byw yn Somalia am 7 mlynedd cyn dychwelyd i dderbyn ei addysg yng Nghymru. Awgrymodd ffrind iddo y dylai wneud cais am swydd yn meithrin gwell rhwydweithiau rhwng cymunedau. Erbyn hyn mae ganddo gymwysterau proffesiynol, ar ôl cwblhau 2 flynedd o gwrs gradd.

"Fe ges i flas mawr ar waith ieuenctid, rhywbeth sydd wrth fy modd, am fod gofyn imi weithio fel eiriolwr pan oeddwn i'n gymharol ifanc dros y gymuned Somali."

Enfys

Ymunodd Enfys â staff Clybiau Ffermwyr Ifainc Cymru ym Mawrth 2007. Mae gan CFfI Cymru dros 6,000 o aelodau 10 – 26 oed, sy'n rhoi iddi 'bosibiliadau gwych i weithio gyda phobl ifanc'. Mae hi'n aelod gwirfoddol o Urdd Gobaith Cymru a'r CFfI, ac mae gwaith ieuenctid o ddiddordeb iddi ers iddi wneud Cymraeg yn y brifysgol.

"Mae dod yn Swyddog Datblygu i'r CFfI wedi caniatáu imi ddatblygu fy niddordeb mewn gwaith ieuenctid gan roi'r hwb angenrheidiol imi ennill cymwysterau mewn gwaith ieuenctid a rhoi cynnig ymarferol ar fy ngwybodaeth."

Jordan

Mae Jordan, 25 oed, yn rhedeg gweithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol gan ddangos i bobl ifanc fod yr iaith yn arbennig ac y gellir ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd.

"Fe ddes i'n weithwraig ieuenctid er mwyn helpu pobl ifanc i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r iaith a datblygu cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg, rhywbeth na ches i mono fe pan oeddwn i'n ifanc. Mae'n wych gweld pobl ifanc sy'n falch o'u treftadaeth eu hiaith a'u hunain."

Jade

Roedd Jade, 24 oed, am astudio dawns neu'r cyfryngau ar ôl iddi wneud lefel A. Roedd cyfnod yn America yn foddion i newid popeth.

"Fe fûm i'n gweithio fel cynghorydd mewn gwersyll i bobl ifanc ddigartref 7 – 17 oed, gan ddarparu gweithgareddau hwyliog megis nofio, dawns a chefnogaeth gyda dysgu. Er bod rhai'n cael trafferth gyda'u hymddygiad, roeddwn i'n meddwl eu bod yn rhyfeddol. Fe sylweddolais i fy mod i am fynd yn weithwraig ieuenctid, a defnyddio fy sgiliau gyda phobl ifanc."

Camau tuag at fod yn weithiwr/wraig ieuenctid

Camau posibl	Oed	Pwy all helpu?
Gwirfoddoli os ydych chi'n gwneud y Fagloriaeth Gymreig yn yr ysgol	13–17	Swyddfa Wirfoddoli Menter gwirfoddoli GwirVol i bobl ifanc rhwng 16 a 25 yng Nghymru www.gwirvol.org
Dod yn addysgwr/mentor ieuenctid os gallwch chi	13–18	www.cliconline.co.uk or www.credu.co.uk
Profiad gwaith yn y Gwasanaeth Ieuenctid	13–18	Ymgynghorydd gyrfaoedd neu athro/awes
Cymryd rhan neu barhau i gymryd rhan mewn sefydliad ieuenctid neu gymuned	13–25	Gweithiwr/wraig ieuenctid, hyfforddwr/wraig dysgu yn yr ysgol neu chwilio gwefannau am wybodaeth leol
Cynnig am wobrau e.e. Gwobr Dug Caeredin, Baden Powell a Go for it (Geidiaid), Cymorth cyntaf	13–25	Cydlynydd Gwobr Dug Caeredin neu www.theaward.org
Cysgodi gweithiwr/wraig ieuenctid	13–25	Ymgynghorydd gyrfaoedd neu www.careerswales.com
Ymuno â fforwm ieuenctid neu â chyngor ysgol	13–25	Athro/awes neu weithiwr/wraig ieuenctid
Ymuno â Draig Ffynci (Fforwm Ieuenctid Cenedlaethol)	13–25	www.funkydragon.org
Gwneud yr opsiwn cymunedau y Llwybrau Dysgu 14-19 yn yr ysgol	14–19	Hyfforddwr/wraig Dysgu yn yr ysgol, athro/awes neu ymgynghorydd gyrfaoedd
Cychwyn yr hyfforddiant i arweinwr iau a fod ar gael yn eich sefydliad ieuenctid ac a allai gael ei achredu	16–17	Gweithiwr/wraig ieuenctid www.cliconline.co.uk or www.credu.co.uk
Derbyn hyfforddiant yn y sector gwirfoddol i ddod yn arweinydd cynorthwyol / arweinydd	18 +	www.cwvys.org.uk
Mentrau gwirfoddoli i fyfyrwyr os ydych chi mewn coleg	18 +	Undebau Myfyrwyr
Derbyn swydd am gyflog yn y Gwasanaeth Ieuenctid	18 +	Gwefan awdurdod lleol, gweithiwr/wraig ieuenctid neu www.careerswales.com
Hyfforddiant gwaith ieuenctid mewn coleg / brifysgol, yn rhan-amser neu'n amser llawn	18 +	Ymgynghorydd gyrfaoedd neu www.careerswales.com, www.ucas.ac.uk, darlithydd neu diwtor yn y coleg
Dilyn cwrs gwaith ieuenctid a redir gan wasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol	18 +	Gwefan awdurdod lleol neu weithiwr/wraig ieuenctid

Lluniwyd y wybodaeth sydd yn y daflen hon ar sail barn pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid.